Arweiniad i Godi Tâl am Ofal Cymdeithasol Oedolion i bobl sy'n byw gartref 2021-2022

Gan gynnwys gwahoddiad i wneud cais am asesiad ariannol

www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyflwyniad

Y polisi codi tâl dibreswyl yw ein dull o gyfrifo a oes angen i chi dalu am ofal cymdeithasol ai peidio, ac os felly, faint y mae angen i chi ei dalu.

Byddwn yn dilyn cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar gyfer codi tâl gan bobl am wasanaethau sy'n eu helpu i fyw'n annibynnol gartref -

- Yr uchafswm y gallwn ei godi arnoch am ofal cymdeithasol o 5 Ebrill, 2021 yw £100.00 yr wythnos
- Os oes gennych fwy na £24,000 o gyfalaf (5 Ebrill, 2021), sy'n cynnwys arbedion/buddsoddiadau/perchnogaeth ar dir/eiddo (ac eithrio'r eiddo yr ydych yn byw ynddo) bydd yn rhaid i chi dalu'r pris llawn am eich gofal cymdeithasol hyd at uchafswm o £100.00 yr wythnos.
- Os dewiswch beidio â datgelu'ch amgylchiadau ariannol mewn Asesiad Ariannol, neu'ch bod yn methu eu datgelu, bydd yn rhaid i chi dalu'r pris llawn am eich gofal cymdeithasol hyd at uchafswm o £100.00 yr wythnos
- Gallech fod â hawl i dderbyn hyd at y 6 wythnos gyntaf o ofal cymdeithasol yn rhad ac am ddim os darperir y gofal hwnnw gan y Tîm Derbyn neu'r Tîm Dementia. Gofynnwch i'ch Gweithiwr Cymdeithasol am fwy o fanylion.

Pa Wasanaethau sydd wedi'u cynnwys o dan y polisi codi tâl dibreswyl?

Daw'r gwasanaethau canlynol o dan y polisi codi tâl dibreswyl -

- Gofal cartref - cymorth ymarferol a gofal personol yn eich cartref.
- Gofal dydd - gweithgareddau cymdeithasol y tu allan i'ch cartref.
- Cymorth byw yn y gymuned - cymorth gyda gweithgarwch o ddydd i ddydd os ydych dan 60 oed
- Gofal preswyl / nyrsio tymor byr - h.y. arhosiad nad yw'n fwy na wyth wythnos.

Sut fyddwch chi'n penderfynu a oes raid i mi gyfrannu tuag at gost fy ngofal?

Byddwn yn gwneud hyn drwy gynnal asesiad drwy 'brawf modd' o'ch amgylchiadau ariannol. Gelwir hyn yn Asesiad Ariannol, ac ar dudalennau 5/6œ ceir gwahoddiad i chi ei lenwi a'i lofnodi er mwyn gofyn am Ffurflen Gais Asesiad Ariannol. Bydd angen i chi lenwi a dychwelyd y Ffurflen Gais Asesiad Ariannol a'r dystiolaeth gefnogol y gofynnir amdano ar y ffurflen honno cyn pen 15 diwrnod wedi i chi lofnodi'r gwahoddiad. Os na allwch ddarparu'r Ffurflen Gais Asesiad Ariannol a'r dystiolaeth cyn pen 15 diwrnod, gellir ystyried ymestyn y dyddiad terfyn hwn mewn rhai amgylchiadau. Gallwch ofyn am estyniad naill ai drwy gysylltu â'r Swyddog Asesiadau Ariannol drwy ei ffonio neu drwy anfon llythyr ato (manylion ar dudalen 4). Os na fyddwch yn cyflwyno'r Ffurflen Gais Asesu Ariannol cyn pen 15 niwrnod, neu erbyn diwedd yr estyniad, codir hyd at uchafswm o £100.00 yr wythnos arnoch fel tâl am eich gofal.

Cewch hefyd ddewis enwebu rhywun i'ch helpu gyda hyn, neu i ymdrin â hyn ar eich rhan, fel perthynas neu ffrind. Os byddwch yn dewis gwneud hynny, a wnewch nodi enw a chyfeiriad yr unigolyn hwnnw ar Dudalen 6.

Gallwn drefnu bod Swyddog Hawliau Lles yn ymweld â chi gartref i lenwi'r Ffurflen Gais Asesiad Ariannol, ac i gynnal gwiriad budd-daliadau hawliau lles er mwyn sicrhau eich bod yn hawlio popeth sy'n daladwy i chi. Siaradwch â'ch Gweithiwr Cymdeithasol, a fydd yn trefnu hyn ar eich cyfer.

Gallwch ofyn am adolygiad o'ch Asesiad Ariannol ar unrhyw bryd, er enghraifft, os bydd eich amgylchiadau ariannol neu'ch anghenion gofal yn newid.

Defnyddir y broses hon hefyd i sefydlu faint y byddwch yn ei gyfrannu tuag at Wasanaethau Taliadau Uniongyrchol. Am wybodaeth bellach ynghylch hyn, gweler y daflen ac arni'r teitl 'Gwybodaeth am daliadau uniongyrchol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yng Nghonwy'
https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Adults/Paying-for-care/Direct-Payments-Social-Services-–-Arranging-your-own-support-and-services.aspx
neu cysylltwch â'r

Ystafell Tim Mynediad Conwy,
Cyfeiriad Post; PO Box 1 Conwy LL30 9GN
Ymwelwch a ni; Coed Pella, Ffordd Conwy
Bae Colwyn LL29 7AZ
Rif ffôn: 0300 4561111

Ni chodir unrhyw dâl arnoch am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol os –

- Ydych yn derbyn cymorth o dan Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Oes gennych hawl i dderbyn gofal galluogi tymor byr

Os ydych yn derbyn cymorth o'r Gronfa Byw'n Annibynnol, defnyddir dull arall i gyfrifo'ch cyfraniad.

Pa incwm fydd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol er mwyn cyfrifo fy nhaliad am ofal cymdeithasol?

Pob budd-dal a phensiwn o'r Adran Gwaith a Phensiynau (oni chânt eu diystyru - gweler isod)

- Pob Pensiwn Preifat a Galwedigaethol
- Yr holl incwm o Gronfa Ymddiriedolaeth (gan gynnwys Incwm Cronfa Ymddiriedolaeth Niwed Personol)

Bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o'ch incwm er mwyn cynnal yr Asesiad Ariannol.

Pa incwm/cyfalaf gaiff ei ddiystyru er mwyn cyfrifo fy nhaliad yn yr asesiad ariannol?

- Eich holl enillion.
- Pensiwn Rhyfel neu Bensiwn Rhyfel Gwraig Weddw.
- Budd-dal Plant
- Credyd Cynhwysol a/neu Fudd-dal Trethy Cyngor.
- Y swm cyfatebol o'ch morgais neu'ch rhent.
- Cost gofal personol a ddarperir drwy gontract preifat, os canfuwyd bod angen gofal o'r fath arnoch mewn asesiad.
- Taliadau cynhaliaeth a bennwyd gan y Llys.
- Cost llinell ofal os ydych chi'n talu amdani.
- Rhai bondiau a chanddynt elfen yswiriant bywyd
- Elfen Symudedd y Lwfans Byw i Bobl Anabl a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol.

Os ydych yn un o gwpl a'ch bod yn dymuno cael eich asesu fel unigolyn, diystyrir y canlynol yn yr asesiad ariannol

- 50% o'r holl fudd-dal a ddarperir i'w ddefnyddio ar y cyd (e.e. Cymhorthdal Incwm)
- 100% o bensiwn galwedigaethol yn enw eich partner yn unig
- 50% o gyfalaf/arbedion a ddelir ar y cyd
- 100% o gyfalaf a ddelir yn enw eich partner yn unig
- 100% o enillion eich partner
- 50% o rent, treth y cyngor neu forgais
- 100% or holl fudd-daliadau a ddaperir yn enw eich partner yn unig, (e.e. Lwfans Gweini, Lwfans byw i Bobl Anabl, Taliad Annibyniaeth Bersonol, Lwfans Golawyr, Pensiwn Ymddeol)

Sut fydda i'n gwybod faint y bydd yn rhaid i mi ei dalu?

Byddwn yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am ganlyniad eich Asesiad Ariannol ac yn egluro sut y cafodd y swm ei gyfrifo. Ar yr hysbysiad, nodir canlyniad eich asesiad a'r dyddiad pan fydd yn rhaid i chi ddechrau talu unrhyw gyfraniad. Os oes angen i chi gyfrannu tuag at eich gofal, byddwn yn anfon anfoneb atoch i'w thalu bob pedair i bum wythnos. Y ffordd hawsaf o dalu yw drwy ddebyd uniongyrchol. Cewch fanylion pellach ynghylch sut i dalu ar gefn yr anfoneb neu ar y wefan www.conwy.gov.uk/incwmamrywiol

Os na fyddwch yn talu'ch anfoneb cyn pen 14 diwrnod, byddwn yn anfon nodyn atgoffa atoch. Byddwn yn parhau â'r broses adfer hyd y caiff yr anfoneb ei thalu.

Beth fydd yn digwydd os wyf yn anghytuno â'r swm yr ydych chi'n dweud y mae'n rhaid i mi ei gyfrannu tuag at fy ngofal, neu os na allaf fforddio ei dalu?

Os ydych yn meddwl nad ydym wedi cyfrifo'r swm y mae'n rhaid i chi ei dalu'n gywir, gallwch ofyn i ni edrych ar y swm unwaith eto. Dylech anfon llythyr i'r Swyddfa Asesiadau Ariannol yn unol â'r manylion ar dudalen 4 gan roi'r manylion llawn. Yna, bydd Swyddog Asesiadau Ariannol gwahanol yn edrych ar eich asesiad, a byddwn yn anfon gwybodaeth ysgrifenedig atoch gyda'r canlyniad.

Ar y llaw arall, os na allwch fforddio i dalu'r cyfraniad tuag at eich gofal, er enghraifft os oes

gennych gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'ch anabledd/salwch, gallwch wneud cais i adolygu eich taliad. Mewn rhai amgylchiadau, gallwn ostwng yr hyn y mae angen i chi ei dalu neu ddarparu'r gwasanaeth gofal cymdeithasol yn rhad ac am ddim. Er mwyn gwneud cais am adolygiad o'ch tâl, bydd angen i chi ofyn am Ffurflen Gais Adolygu Taliadau, sydd ar gael o'r Swyddfa Asesiadau Ariannol - manylion isod. Caiff y cais ei ystyried gan Banel Adolygu Taliadau a fydd yn ysgrifennu atoch chi neu'ch cynrychiolydd am y canlyniad. Os ydych yn anfodlon â'r penderfyniad, cewch 5 diwrnod gwaith i gyflwyno Apêl ysgrifenedig yn erbyn penderfyniad y Panel Adolygu Taliadau i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Adeiladau'r Llywodraeth, Cyfeiriad Post; PO Box 1, Conwy LL30 9GN ac yna bydd Panel Apeliadau yn ystyried yr achos unwaith eto ac yn ysgrifennu atoch am y canlyniad.

Sut mae gwneud cwyn?

Os ydych yn meddwl bod rhywbeth wedi mynd o'i le, rydym am gael gwybod er mwyn i ni geisio unioni pethau. Mae ein trefn gwynion yn hawdd i'w defnyddio ac yn ein cynorthwyo i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth cyfartal i bawb. Fe gewch fwy o wybodaeth ynghylch sut i wneud cwyn ar ein taflen 'Sut y gallaf wneud cwyn neu gynnig sylw?' Mae'r daflen ar gael o unrhyw un o swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy neu drwy glicio ar y ddolen we ganlynol https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Contact-Us/Contact-the-Council/How-to-make-a-complaint.aspx

Manylion cyswllt y Swyddfa Asesiadau Ariannol -

Yr Adran Refeniw a Budd-daliadau

Cyfeiriad Post; PO Box 1, Conwy LL30 9GN
Ymwelwch a ni; Coed Pella. Ffordd Conwy
Bae Colwyn LL29 7AZ
Ffôn: 01492 574122 Ffacs: 01492 574160
e-bost: saa@conwy.gov.uk
Gwasanaeth Cyfnewid BT: 108001 01492 574122

Gallwn hefyd ddefnyddio language line, sef gwasanaeth dehongli 24 awr dros y ffôn

Uwch Swyddog Asesiadau Ariannol
Rhian Wyn Roberts

Cyfeiriadau Defnyddiol

Canolfan Cyngor ar Bopeth
Eryl Wen, Eryl Place,
Llandudno LL30 2TX
Rhif Ffôn 0844 4772020

Age Cymru (Age Concern)
Swyddfa Ganolog Gogledd Cymru
12 – 14 Stryd y Neuadd
Dinbych. LL16 3NV
Rhif Ffôn: 01745 816947

Rhestr o daliadau fesul awr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o fis Ebrill, 2021 hyd at fis Mawrth, 2022

Os oes gennych arbedion neu fuddsoddiadau sydd werth llai na £24,000 -

- £18.40 yr awr am ofal cartref yn ystod y dydd; ac
- £18.40 yr awr am ofal dros nos

Gwasanaethau dydd

Os oes gennych arbedion neu fuddsoddiadau sydd werth llai na £24,000 -

- £19.46 am ddiwrnod llawn
- £9.73 am hanner diwrnod

Os oes gennych arbedion neu fuddsoddiadau sydd werth mwy na £24,000 -

- £35.64 am ddiwrnod llawn
- £17.82 am hanner diwrnod

Os ydych yn mynd i ganolfan ddydd, codir tâl ar wahân am brydau, a bydd yn rhaid talu'r taliad hwnnw bob dydd.

Ni chodir mwy arnoch na'r gost wirioneddol o ddarparu'r gwasanaeth. Fel arfer bydd eich tâl yn seiliedig ar nifer yr oriau o ofal y byddwch yn eu derbyn mewn gwirionedd neu eich cynllun gofal.

Yn sgil newid yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru, ym mhob achos o 5 Ebrill, 2021, yr uchafswm y gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei godi fel tâl yw £100.00 yr wythnos fesul unigolyn.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

LLENWCH DUDALENNAU 5 A 6 ER MWYN I NI GODI'R SWM CYWIR ARNOCH AM EICH GWASANAETH GOFAL CYMDEITHASOL. TYNNWCH Y TUDALENNAU O'R LLYFRYN HWN A'U DYCHWELYD I'R SWYDDFA ASESIADAU

Cyfeiriad Post; PO Box 1, Conwy LL30 9GN
Ymwelwch a ni; Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ

Eich Enw

Eich Cyferiad

Eich rhif ffôn

1 Mae asesiad wedi cael ei gynnal o'ch anghenion Gofal Cymdeithasol cymwys, ac yn sgil yr asesiad hwnnw mae'r Cyngor yn cynnig y gwasanaethau canlynol i chi, a byddwn yn codi tâl arnoch amdanynt:-

Gofal Cartref ☐ **Gofal Dydd** ☐ **Cymorth Byw yn y Gymuned** ☐

Gofal preswyl/nysio tymor byr ☐

Arall - Nodwch

2 Mae'r llawlyfr sy'n cyd-fynd â'r gwahoddiad hwn yn cynnwys:

- Polisi Codi Tâl y Cyngor am wasanaethau dibreswyl;
- manylion y taliadau y gall y Cyngor eu codi am wasanaethau penodol;
- manylion yr uchafswm y gall y Cyngor ei godi'n wythnosol, fesul unigolyn h.y., uchafswm o £100 yr wythnos fesul unigolyn;
- manylion y broses a ddilynwn i asesu'ch sefyllfa ariannol, gan gynnwys y dogfennau y byddwn yn gofyn i chi eu cyflwyno, ac ym mha fformat y byddwn ni eu hangen;
- manylion yr unigolion yn y Cyngor y gallwch gysylltu â hwy os oes arnoch angen unrhyw wybodaeth neu gymorth pellach;
- manylion eich hawliau i ofyn i drydydd parti roi cymorth i chi neu i weithredu ar eich rhan mewn perthynas â'r holl broses asesu ariannol, neu ran ohoni, yn ogystal â manylion y sefydliadau annibynnol lleol a all gynnig cefnogaeth neu gymorth yn y maes hwn.

Sylwch bod angen i chi lenwi'ch asesiad ariannol a'i hanfon atom cyn pen 15 niwrnod wedi dyddiad eich cais. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd modd i ni gytuno i ymestyn y dyddiad cau. Cysylltwch â ni cyn gynted ag sy'n bosib, os oes arnoch angen estyniad amser. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i lenwi'r ffurflen asesu ariannol, cysylltwch â ni, a gallwn drefnu i rywun ymweld â'ch cartref os yw hynny'n well gennych. Sylwch, os na fyddwch yn dychwelyd y ffurflen asesu ariannol wedi'i chwblhau, y byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau ond yn codi hyd at uchafswm o £100.00 arnoch bob wythnos, fesul unigolyn.

Sylwch ei bod hi'n bosibl y bydd angen cynnal asesiad ariannol newydd ar eich cyfer os

- bydd eich incwm neu'ch cyfalaf yn newid;
- mae'n bosibl y byddwn yn newid y swm y mae'n rhaid i chi ei dalu os:
- yw dull yr Awdurdod o gynnal yr asesiad ariannol yn newid;
- ceir newid i'r cyfarwyddyd a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y dylem gynnal asesiad ariannol;
- rydym wedi gwneud camgymeriad yn eich asesiad ariannol.

Llenwch y canlynol, gan ddileu unrhyw beth sydd ddim yn briodol:-

Rwy'n dymuno cael cymorth i dalu fy nghostau gofal ac yn darparu manylion llawn am fy amgylchiadau ariannol **YDW / NAC YDW**

Rwy'n dymuno talu'r tâl safonol am fy ngofal, ond os bydd fy amgylchiadau'n newid rwy'n deall bod modd i mi ofyn am asesiad ariannol yn y dyfodol **YDW / NAC YDW**

Hoffech chi i aelod o'ch teulu/ffrind/gofalwr fod yn rhan o'ch trefniadau gofal? **HOFFWN / NA HOFFWN**

Os mai HOFFWN yw eich ateb uchod, nodwch enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr unigolyn hwnnw -

Deallaf na ddylwn gael gwared ag unrhyw eiddo, asedau nac adnoddau ariannol er mwyn lleihau fy ngallu i dalu am y gwasanaethau yr wyf yn eu derbyn. Os gwnaf hynny, cewch gyfrif yr adnoddau hyn fel pe bawn yn dal i fod yn berchen arnynt.

Wrth lofnodi'r ffurflen hon, rydych yn cadarnhau eich bod yn deall cynnwys y llythyr hwn ac y bydd tâl yn cael ei godi arnoch am y gwasanaeth. Os na allwch ei ddeall, gallwch ofyn i gyfreithiwr, ffrind, perthynas neu aelod o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol eich helpu.

Llofnod

Dyddiad

Llofnod y Cynrychiolydd os yw'n berthnasol

Dyddiad

Enw'r Cynrychiolydd os yw'n berthnasol

Perthynas/cysylltiad â'r unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth gofal cymdeithasol